Dŵr Cymru
Welsh Water

# Safonau Gwasanaeth Gwarantedig Cyfanwerthu

2025-26

dwrcymru.com

# Ein haddewid i chi

**Rydyn ni'n gweithio'n galed iawn i ddarparu gwasanaeth rhagorol ar eich cyfer, ond weithiau mae pethau'n mynd o chwith.**

Rhaid i gwmnïau dŵr fodloni safonau penodol. Fel cwmni sydd mewn perchnogaeth ar ran ein cwsmeriaid, rydyn ni'n cymryd pob cam posibl i wneud pethau'n iawn y tro cyntaf Bob tro. Dyma amlinelliad o'n haddewid i chi, a beth y gallech ei hawlio os bydd rhywbeth yn mynd o'i le.

## Eich dŵr

### Toriadau cynlluniedig

Byddwn ni'n rhoi o leiaf 48 awr o rybudd i chi os oes angen cyflawni gwaith cynlluniedig a fydd yn effeithio ar eich cyflenwad am fwy na phedair awr.

**Os na fyddwn ni'n gwneud hyn, byddwn ni'n talu £50 i gwsmeriaid busnes cyn pen 20 diwrnod gwaith.**

Byddwn ni'n adfer eich cyflenwad erbyn yr amser a nodir yn yr hysbysiad.

**Os na fyddwn ni'n gwneud hyn, byddwn ni'n talu £75 i gwsmeriaid busnes cyn pen 20 diwrnod gwaith.**

Byddwn ni'n talu iawndal pellach i chi am bob 12 awr ychwanegol y byddwch heb gyflenwad dŵr yn sgil y toriad.

**Byddwn ni'n talu £75 i gwsmeriaid busnes (am bob 12 awr) cyn pen 20 diwrnod gwaith.**

### Toriadau heb eu cynllunio

Byddwn ni'n adfer eich cyflenwad cyn pen 12 awr ar ôl i'r broblem ddod i'n sylw. Gallai gwaith trwsio ar brif bibell strategol gymryd mwy o amser na hyn, ac yn yr achosion hyn, ein nod fydd adfer eich cyflenwad dŵr cyn pen 48 awr.

**Os na fyddwn ni'n gwneud hyn, byddwn ni'n talu £75 i gwsmeriaid busnes cyn pen 20 diwrnod gwaith.**

Byddwn ni'n talu iawndal pellach i chi am bob 12 awr ychwanegol y byddwch heb gyflenwad dŵr yn sgil y toriad.

**Byddwn ni'n talu £75 i gwsmeriaid busnes (am bob 12 awr) cyn pen 20 diwrnod gwaith. Os nad oeddem ni'n ymwybodol o'r toriad, bydd angen i chi gyflwyno hawliad trwy ffonio 0800 260 5053 neu ysgrifennu atom cyn pen tri mis ar ôl i'r peth ddigwydd.**

### Gorchymyn sychder (heb gynnwys cyfyngiadau ar bibellau dyfrio)

Byddwn ni'n talu iawndal i chi os oes Toriad yn eich cyflenwad dŵr oherwydd sychder.

**Byddwn ni'n talu £50 i gwsmeriaid busnes am bob dydd neu ran o ddiwrnod (hyd at y terfyn) taliadau dŵr y flwyddyn flaenorol ar gyfer yr eiddo, neu hyd at £500 os nad chi oedd yn gyfrifol am daliadau'r flwyddyn ddiwethaf).**

### Ansawdd dŵr

Os bydd rhywun yn cysylltu â ni am fod blas neu arogl anarferol ar eich dŵr, neu os ydyn ni'n cael gwybod bod rhywun yn sâl o ganlyniad i yfed y dŵr, byddwn ni'n cysylltu nôl â chi cyn pen pedair awr oni bai ein bod eisoes yn delio â'r broblem yn eich ardal.

**Os na fyddwn ni'n gwneud hyn, gallwch hawlio £20.**

Os byddwn ni'n cymryd sampl o'r dŵr yn sgil eich galwad, byddwn ni'n rhannu'r canlyniad â chi cyn pen 10 diwrnod gwaith.

**Os na fyddwn ni'n gwneud hyn, gallwch hawlio £20. Rhaid hawlio'r taliadau hyn cyn pen tri mis ar ôl y digwyddiad.**

I gael gwybodaeth am ansawdd y dŵr yn eich ardal, ewch i **dwrcymru.com** neu ffoniwch eich Adwerthwr.

### Pwysedd dŵr

Byddwn ni'n sicrhau bod eich pwysedd dŵr ar y lefel gywir. Y pwysedd lleiaf yw saith metr statig, sydd gyfwerth â llif o 9 litr y funud. Os ydyn ni'n ymwybodol bod eich pwysedd dŵr wedi disgyn yn is na'r lefel hon am awr neu fwy ddwywaith mewn cyfnod o bedair wythnos, byddwn ni'n talu iawndal i chi oni bai ei bod oherwydd gwaith hanfodol neu sychder.

**Byddwn ni'n talu £25 i chi cyn pen 20 diwrnod gwaith (dim ond un taliad y gellir ei wneud mewn blwyddyn). Os nad oeddem ni'n gwybod bod hyn wedi effeithio arnoch, bydd angen i chi gyflwyno hawliad trwy eich Adwerthwr cyn pen tri mis ar ôl yr ail ddigwyddiad.**

### Gosod mesuryddion

Byddwn ni'n gosod eich mesurydd cyn pen tri mis ar ôl i'ch cais ddod i law.

**Os na fyddwn ni'n gwneud hyn, byddwn ni'n talu £20 i chi am bob neu ran o fis cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad gosod.**

## Eich gwasanaeth

### Apwyntiadau

Os oes angen i ni gynnig apwyntiad i chi, bydd hynny naill ai yn y bore (8am-12pm) neu yn y prynhawn (12pm-6pm) dydd Llun i ddydd Gwener, neu rhwng 8am a 12pm dydd Sadwrn. Gallwn gynnig slot o ddwy awr ar gyfer eich apwyntiad ar gais.

**Os byddwn ni'n colli apwyntiad neu'n methu â rhoi 24 awr o rybudd am ganslo neu newid apwyntiad, byddwn ni'n talu £20 i chi cyn pen 10 diwrnod gwaith.**

## Materion eraill

### Taliadau cosb

Os ydyn ni'n methu â gwneud unrhyw un o'r taliadau hyn o fewn yr amser a nodir, byddwn yn talu taliad cosb i chi'n awtomatig.

**Byddwn ni'n talu £50 i gwsmeriaid busnes.**

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.**